OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 No. 2377

# Rheoliadau Sgil-gynhyrchion Anifeiliaid (Gorfodi) (Rhif 2) (Cymru) 2011

## RHAN 5

Gorfodi

**Hysbysiadau a gyflwynir gan berson awdurdodedig**

**25.**—(1) Caiff person awdurdodedig gyflwyno hysbysiad yn unol â pharagraff (2) pan fo'r person hwnnw—

(a) yn ystyried bod gofyniad sgil-gynhyrchion anifeiliaid wedi ei dorri, neu fod methiant i gydymffurfio â'r gofyniad; neu

(b) yn rhesymol yn amau, o ganlyniad i dorri'r gofyniad hwnnw neu fethu â chydymffurfio ag ef, bod mangre yn peri risg i iechyd dynol neu i iechyd anifeiliaid.

(2) Caniateir i hysbysiadau gael eu cyflwyno i feddiannydd unrhyw fangre, neu i'r person sydd â gofal am y fangre—

(a) yn ei gwneud yn ofynnol i waredu ac, os yw'n gymwys, storio'r canlynol cyn ei waredu—

(i) sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid;

(ii) deunydd mewn mangre y mae paragraff (1)(b) yn gymwys iddi;

(b) yn ei gwneud yn ofynnol i lanhau a diheintio mangre y mae paragraff (1)(b) yn gymwys iddi ac, os yw'n gymwys, pennu'r dull ar gyfer y glanhau a'r diheintio hwnnw;

(c) gwahardd sgil-gynhyrchion anifeiliaid a chynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid rhag y canlynol—

(i) cael eu symud neu eu cludo i mewn i'r fangre;

(ii) cael eu symud neu eu cludo i mewn i'r fangre oni wneir hynny'n unol ag amodau a bennir yn yr hysbysiad, gan gynnwys amod ynglŷn â chwblhau'n foddhaol y glanhau a'r diheintio yn unol â hysbysiad fel a ddarperir yn is-baragraff (b).

(3) Rhaid cydymffurfio â hysbysiad a gyflwynir o dan baragraff (2) a hynny ar draul y person y cyflwynir yr hysbysiad iddo, ac os na chydymffurfir ag ef, caiff person awdurdodedig drefnu cydymffurfedd ag ef ar draul y person hwnnw.

(4) Nid yw paragraff (1) yn gymwys pan fo Erthygl 46(1) (ataliadau dros dro, tynnu'n ôl a gwaharddiadau ar weithrediadau) o Reoliad Rheolaeth yr UE yn gymwys.